**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Cadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; y Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc; Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru

07 Mawrth 2025

Annwyl Gadeirydd

Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb uchod yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror, ynghyd â gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r deisebydd.

Yn ystod y drafodaeth, nodais bwyntiau allweddol a godwyd yn fy nghyfarfod blaenorol â'r deisebwyr. Cydnabu'r Aelodau gwmpas eang y materion a godwyd, sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Deisebau. Roedd yn amlwg y byddai mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn gofyn am strategaeth drawslywodraethol gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog – gan gopïo Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol i mewn, er ymwybyddiaeth – i holi am strategaeth draws-bortffolio'r Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â COVID hir, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion sydd naill ai'n ddi-waith, neu'n wynebu anawsterau o ran dychwelyd i'r gwaith, oherwydd COVID hir sydd, o bosibl, heb gael ei ddiagnosio.

At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at bwyllgorau pwnc perthnasol y Senedd i ofyn am ragor o wybodaeth am eich gwaith ymchwilio parhaus neu arfaethedig ynghylch dull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â COVID hir.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Yn gywir,

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.